HYSBYSIAD ETHOLIAD

Etholiad Senedd Cymru
Ar gyfer Etholaeth Casnewydd Dwyrain

1. Caiff etholiad ei gynnal ar gyfer Aelod Etholaethol i wasanaethu yn y Senedd ar gyfer etholaeth Casnewydd Dwyrain.
2. Gellir cael papurau enwebu o swyddfa'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol, Ystafell 528, Canolfan Ddinesig, Casnewydd, yn ystod yr amseroedd a nodir isod.
3. Rhaid cyflwyno ffurflenni enwebu a ffurflenni cyfeiriad cartref i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn Ystafell 527a, Canolfan Ddinesig, Casnewydd. Gellir cyflwyno ffurflenni cydsynio i enwebiad trwy e-bost i phillip.johnson@newport.gov.uk
4. Rhaid cyflwyno papurau enwebu rhwng 9am a 5pm ar unrhyw ddiwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr hysbysiad hwn, ond heb fod yn hwyrach na **4pm ddydd Iau 8 Ebrill 2021.**
5. Os ymleddir yr etholiad, cynhelir y bleidlais **ddydd Iau 6 Mai 2021.**
6. Rhaid i geisiadau cofrestru i bleidleisio gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol erbyn 12 canol nos **ddydd Llun 19 Ebrill 2021.** Gellir cyflwyno cais ar-lein: **https://www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio**
7. Gellir talu'r ernes £500 trwy dendr cyfreithiol neu drwy ddrafft banciwr gan dynnwr sy'n cynnal busnes fel banciwr yn y Deyrnas Unedig
8. Rhaid i geisiadau, newidiadau neu achosion o ganslo pleidleisiau post gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn y cyfeiriad isod erbyn 5pm ddydd Mawrth 20 Ebrill 2021.
9. Rhaid i geisiadau i bleidleisio trwy ddirprwy yn yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn y cyfeiriad isod erbyn 5pm ddydd Mawrth 27 Ebrill 2021.
10. Rhaid i geisiadau i bleidleisio trwy ddirprwy brys yn yr etholiad hwn ar sail anabledd, am resymau gwaith/gwasanaeth neu'r angen i gydymffurfio â deddfiad neu ganllawiau gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r coronafeirws gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn y cyfeiriad isod erbyn 5pm ddydd Iau 6 Mai 2021. Rhaid bod yr anabledd wedi digwydd ar ôl 5pm ddydd Mawrth 27 Ebrill 2021. I wneud cais ar sail gwaith/gwasanaeth neu'r coronafeirws, rhaid bod y person wedi dod yn ymwybodol na all fynd i'r orsaf bleidleisio yn bersonol ar ôl 5pm ddydd Mawrth 27 Ebrill 2021.

Ardaloedd	Manylion Cyswllt y Swyddfa Cofrestru Etholiadol	
Mynwy: - Castell Caldicot, Llanddewi, Magwyr gyda Gwndy, Rogiet, Hafren, West End	Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA	01633 644212
Casnewydd: - Alway, Beechwood, Langstone, Llanwern, Liswerry, Ringland, Sain Silian, Victoria	Cyngor Dinas Casnewydd, Ystafell 528, Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd, NP20 4UR	01633 210744

Cynhelir etholiadau Rhanbarthol i Gynulliad Cymru hefyd ar ddydd Iau, 6 Mai, 2021, ynghyd â'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar gyfer Gwent.

Dyddiad: 22 Mawrth, 2021

Beverly Owen
Y Swyddog Canlyniadau Etholaethol
Canolfan Ddinesig,
Casnewydd,
NP20 4UR

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan y Swyddog Canlyniadau Etholaethol Canolfan Ddinesig,Casnewydd,NP20 4UR